

Briff Cymorth i Ferched Cymru: Mis Hydref 2019

Trawsnewid yr Ymateb i'r Bil Cam-drin Domestig

Briff ar gyfer y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus

Mae'r briff hwn yn crynhoi'r argymhellion allweddol gan Cymorth i Ferched Cymru i lywio ystyriaeth y Pwyllgor o'r Bil, yn ogystal â chrynhoi'r gwelliannau deddfwriaethol argymelledig yr ydym wedi cydweithio arnynt a'u cefnogi, ac a ddrafftwyd gan sefydliadau partner. Fel y ffederasiwn cenedlaethol yng Nghymru, rydym wedi ymgysylltu â goroeswyr a gwasanaethau arbenigol ledled Cymru i lywio ein hargymhellion. Llywiwyd ein holl argymhellion gan brofiadau bywyd go iawn goroeswyr yng Nghymru a chan y gwasanaethau arbenigol sy'n eu cefnogi a'u hamddiffyn.

Cymru

Galwodd [Cymorth i Ferched Cymru](#), a'r [Cyd-Bwyllgor](#) a fu'n craffu ar y Bil ym mis Mehefin, am fwy o eglurder a chydweithredu agosach rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Yn ei [ymateb i'r Cyd-Bwyllgor](#), mae Llywodraeth y DU yn datgan y dylai rôl y Comisiynydd Cam-drin Domestig wella'r cyd-gysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'i bod yn disgwyl perthynas waith agos rhwng y Comisiynydd ac Cyngorwyr Cenedlaethol Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Er mwyn helpu cyflawni hyn, mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion canlynol sy'n anghyson â'r argymhellion sy'n gysylltiedig â'r Bil:

- Parhew'n yn bryderus ynghylch y gwahanol ymagweddau at ddeddfwriaeth, gan fod yna yng Nghymru ddeddfwriaeth sydd wedi'i llywio gan rywedd ynghyd â dyletswyddau statudol i atal trais yn erbyn menywod, sy'n adlewyrchu'r ffaith y gall goroeswyr brofi myrdd o wahanol fathau o gam-drin.
- Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar gyllid ar gyfer cymorth mewn llety i oroeswyr cam-drin domestig yn Lloegr. Yng Nghymru, cyflwynwyd ymrwymiad yn 2016 ar gyfer cyllid diogel a chynaliadwy i wasanaethau arbenigol, a hynny yn y [Strategaeth Genedlaethol i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru](#), ond pryderwn o hyd nad yw hyn wedi'i gyflawni eto. Rydym am sicrhau ein bod yn osgoi loteri cod post ar gyfer goroeswyr, a bod unrhyw gynigion ar gyfer cyllido gwasanaethau cam-drin domestig yn ddiogel yn gymwys i'r ddwy wlad. Hoffem weld **cyllid ychwanegol cyfatebol yn cael ei ddyrannu i gefnogi sefydliadau arbenigol yng Nghymru**, a hwnnw'n gyllid diogel sy'n eu galluogi i fod yn gynaliadwy ac sy'n caniatáu i'r rhwydwaith o lochesau ar draws y DU, sy'n darparu gwasanaethau achub bywyd hanfodol ac sy'n gweithredu ar draws ffiniau, dderbyn cefnogaeth i barhau.
- Ar hyn o bryd, ar gyfer Lloegr yn unig y rhoir ystyriaeth i gyflwyno tenantiaeth oes, a hoffem weld **gwarchod tenantiaethau tebyg ar gyfer goroeswyr cam-drin yng Nghymru**.

- Rydym am weld **data'n cael eu dadgyfuno ar gyfer Lloegr a Chymru** oherwydd y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth. Mae hefyd yn bwysig bod proses yn cael ei sefydlu gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y data priodol yn cael eu casglu gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Diffiniad statudol

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn galw am ddiffiniad yn unol â Chonfensiwn Istanbul sy'n cydnabod natur ryweddol cam-drin domestig. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd yn diwygio'r diffiniad i gynnwys digwyddiadau unigol a phatrymau ymddygiad ac y bydd unrhyw arweiniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gorfod ystyried y ffaith bod mwyafrif y dioddefwyr yn fenywaidd. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw'r diffiniad statudol yn cydnabod effaith anghymesur cam-drin domestig ar fenywod, er gwaethaf rhwymedigaethau Llywodraeth y DU o dan gyfraith ryngwladol:

- Argymhelliad Cyffredinol 35 Pwyllgor [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod](#) (CEDAW), sy'n pwysleisio bod trais ar sail rhywedd ar ffurf cam-drin domestig yn gyfystyr â gwahaniaethu yn erbyn menywod;
- Mae Confensiwn nodedig Cyngor Ewrop ar atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig ('[Confensiwn Istanbul](#)') – y mae Llywodraeth y DU wedi'i lofnodi ac wedi ymrwymo i'w gadarnhau trwy'r Bil – yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau ar drais domestig fod yn sensitif i rywedd.

Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i sut y bydd y diffiniad statudol yn rhyngweithio â'r diffiniadau sydd eisoes mewn deddfwriaeth yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i sectorau sy'n gweithio ar draws y cylchoedd gwaith datganoledig a'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli gan y byddant yn gweithio yn ôl diffiniadau gwahanol. **Argymhellwn yn gryf y dylai'r ddwy lywodraeth fabwysiadu diffiniadau sy'n unol â Chonfensiwn Istanbul.**

Comisiynydd Cam-drin Domestig

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladaol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth baratoi'r ddogfen fframwaith. Mae disgwyl i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig weithio'n agos a chydlynu ei waith yng Nghymru gyda'r Cynghorwyr Cenedlaethol. Fodd bynnag, **mae angen eglurder o hyd ynghylch sut y bydd gwaith y Comisiynydd a'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn rhyngweithio mewn perthynas â'r meysydd datganoledig.**

Confensiwn Istanbul

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bod 'wedi ymrwymo i gadarnhau Confensiwn Istanbul' ac yn datgan *'Bydd y Llywodraeth yn parhau i adrodd yn flynyddol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Atal a Mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cadarnahu'r Confensiwn) 2017, ar y cynnydd tuag at ddilysu, a disgwylir i'r adroddiad nesaf gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref'*.

Fodd bynnag, fel y nododd adroddiad y cyd-bwyllgor, mae meysydd eraill y mae angen i'r Llywodraeth fynd i'r afael â nhw er mwyn bodloni telerau'r Confensiwn, neu fel arall nid yw'r Bil yn ategu'r

gofynion ar gyfer cymorth gwell a theg i fenywod mudol, diffiniad rhyweddol o gam-drin domestig a chydabod effaith cam-drin domestig ar blant.

Cymeradwywn alwad Clyblaid Trais yn Erbyn Menywod am **sicrwydd y bydd y Llywodraeth yn cydymffurfio â phob agwedd ar Gonfensiwn Istanbul, a chydag ymagwedd sy'n sensitif at rywedd tuag at bolisiau'n ymwneud â thrais domestig, a chydag amddiffyniad cyfartal i bob goreswr** drwy gynnal egwyddorion gwrth-wahaniaethu hanfodol yn unol ag [Erthygl 4\(3\) Confensiwn Istanbul](#).

Diwygio'r system les

Dywed Llywodraeth y DU nad yw'n ystyried mai taliadau rhanedig awtomatig yw'r datrysiaid poilsu gorau ond y bydd yn parhau i sicrhau bod staff canolfannau gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi'u hyfforddi mewn cam-drin domestig er mwyn adnabod arwyddion cynnar.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn parhau i alw am daliadau rhanedig awtomatig ac yn cefnogi'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Surviving Economic Abuse sy'n ymwneud â thaliadau rhanedig diodyn ac sy'n eithrio goreswyr, sydd â newid yn eu hamgylchiadau o ganlyniad i gam-drin domestig, o ad-dalu taliadau Credyd Cynhwysol ymlaen llaw. Mae effaith diwygio lles wedi gadael rhai goreswyr heb fynediad digonol at arian a fydd yn sicrhau eu bod yn derbyn diogelwch, cymorth a chyfiawnder. Nodwyd gennym, er enghraifft, y gall taliadau ar y cyd ddwysáu cam-drin domestig ac felly fe argymhellwyd cyflwyno taliadau unigol ar wahân a'r rheini'n ddiodyn.

Dengys [ein data](#) mai cymorth ariannol fu'r trydydd angen mwyaf cyffredin am gymorth a nodwyd gan oroeswyr sy'n ceisio cymorth yng Nghymru – sy'n cynnwys cymorth neu arweiniad wrth gael mynediad at fudd-daliadau cymorth tai, cymhorthdal incwm, taliadau cynhaliaeth plant a Chredyd Cynhwysol.

Mae goreswyr yng Nghymru wedi dweud wrthym:

Mae menywod yn goresi trais ac yna'n gorfod goresi ar geiniog a dimai, does dim gyda ni, dim celfi, dim bwyd, dim hawl i arian cyhoeddus, mae angen arian arnon ni i fyw, neu fel arall byddwn ni naill ai'n amddifad neu'n farw. (Goreswr)

Hoffem hefyd weld **dyletswydd i asesu effaith diwygiadau lles ar oroeswyr cam-drin domestig a dirymiad ar unwaith o'r terfyn credyd treth dau blentyn**. Canfu [adroddiad ar y cyd](#) y bydd effaith y terfyn credyd treth dau blentyn yn golygu bod 300,000 o blant yn cael eu gwthio i dlodi ac y bydd un miliwn o blant, sydd eisoes mewn tlodi, yn cael eu gwthio hyd yn oed yn ddyfnach i dlodi erbyn 2023/24. Mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn ar frys yn y ddeddfwriaeth arfaethedig.

Dim hawl i Gyllid Cyhoeddus a menywod mudol

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi ymgyrch [Step Up Migrant Women](#) sy'n galw ar Lywodraeth y Du, yn y Bil, i ddarparu dulliau adrodd diogel sy'n sicrhau bod gorfodaeth mewnfudo yn cael ei gadw'n gwbl ar wahân i'r ymateb i gam-drin domestig, ac sy'n sicrhau y rhoddir y pwys mwyaf ar ddiogelwch y goreswr.

Mae goreswyr yng Nghymru wedi dweud wrthym:

Y cyfan mae asiantaethau'n ei weld yw statws mewnfudo, 'dy'n nhw ddim yn ein gweld ni fel bodau dynol. Mae angen help arnon ni. (Goroeswr)

Dywedodd e wrtha i byddai neb yn fy nghredu i oherwydd fy statws, a bydden nhw'n cymryd fy mhlant i oddi wrtha i. (Goroeswr)

Dywedon nhw wrtha i am fynd adre i Affrica gan y byddwn i'n ddiogel fan'na gan fod ei arhosiad [caniatâd i aros] gydag e nawr. Ffoniais i'r heddlu amdano fe gannoedd o weithiau a bron iddo fe fy lladd i. Mae'r heddlu'n gwybod popeth am y peth. Gadawon nhw iddo fe aros beth bynnag. (Goroeswr)

Rydym hefyd yn adleisio pryderon [Southall Black Sisters](#) am fenywod nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus sy'n dioddef trais, cam-drin a rheolaeth, a rhanwn eu rhwystredigaeth ynghylch y diffyg mesurau yn y Bil i gefnogi menywod mudol.

Mae gwasanaethau arbenigol yng Nghymru rydym wedi ymgynghori â nhw wedi rhannu sut y mae'r rheol dim hawl i gyllid cyhoeddus yn gorfodi menywod i aros mewn perthnasoedd camdriniol a'u gosod mewn perygl pellach o gamfanteisio a chaethwasiaeth fodern.

Mae goreswyr yng Nghymru wedi dweud wrthym:

Bydd rhaid i fi adael y lloches mewn 2 wythnos achos does dim arian gen i. (Goroeswr)

Ble fydda i'n mynd? Bydda i'n amddifad os na alla i gael arian mewn 28 diwrnod. Dwi mor ofnus. (Goroeswr)

Mae bod heb hawl i gael arian cyhoeddus yn broblem enfawr. Pan briodais i fy ngŵr roedd e fod i fy rhoi i ar ei ddogfennau fe ei hunan, ond fe wrthododd e... Pan adawais i adre gyda fy mhram a bag babi, gwelais i weithwyr tai a chymdeithasol. Ro'n i wedi cael babi 3 mis yn ôl a dywedodd y ddau ohonyn nhw wrtha i – na, allwch chi ddim mynd nôl i'r tŷ yna, dyw e ddim yn ddiogel, ond ar yr un pryd dywedon nhw na, allwn ni ddim eich helpu achos does dim hawl gyda chi i gael arian cyhoeddus. Beth ro'n i fod i wneud? (Goroeswr)

Felly, cefnogwn dri diwygiad arfaethedig Southall Black Sisters:

- Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol **ymestyn y Rheol Trais Domestig i gynnwys yr holl fenywod mudol sydd wedi'u cam-drin, beth bynnag fo'u statws mewnfudo**, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u cefnogi'n briodol yn wyneb pob math o niwed a cham-drin.
- Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol **ymestyn y Consesiwn Amddifadedd a Thrais Domestig (DDVC) i gynnwys yr holl fenywod a phlant mudol sydd wedi'u cam-drin beth bynnag fo'u statws mewnfudo**, a hynny er mwyn eu galluogi i sicrhau amddiffyniad a chymorth yn wyneb digartrefedd ac amddifadedd ac er mwyn ymestyn y cyfnod o'r tri mis cyfredol i chwe mis o leiaf er mwyn caniatáu adferiad digonol a mynediad i gymorth arbenigol a chyfreithiol.
- Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol osod gerbron y Senedd **strategaeth benodol a chynhwysfawr ar drais a cham-drin yn erbyn menywod a merched mudol fel bod un**

fframwaith ar gyfer cefnogi a diogelu sy'n mynd i'r afael â'r holl rwystrau sy'n gorgyffwrdd ac sy'n arwain at gam-drin, digartrefedd, amddifadedd a chamfantasio ymysg yr holl fenywod mudol.

Llysoedd Teulu a'r system llysoedd ehangach

Erbyn hyn, mae corff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos y niwed a achosir gan y system cyfiawnder teuluol i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin (goroeswyr cam-drin domestig).

Yn [ein hymateb](#) i ymchwiliad diweddar y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gam-drin domestig, amlygwyd gennym enghreifftiau niferus gan oroeswyr yng Nghymru ac aelodau Cymorth i Ferched Cymru o fethiannau llys, yn enwedig o ran methu â sicrhau diogelwch a lles goroeswyr a'u plant a'r niwed a achosir gan groes-holi, cyfryngu a diffyg mesurau arbennig.

Mae goroeswyr yng Nghymru wedi dweud wrthym:

Maen nhw'n eich rhoi chi nôl yn yr un ystafell â'r person sy'n cam-drin, er mwyn ceisio'ch cael chi i gyfryngu ag e pan taw fe sy'n dal yr holl bŵer as sydd wedi'ch rheoli chi ers blynnyddoedd, does dim siawns gyda chi, dyw e ddim yn gyfartal. (Goroeswr)

Aeth e i'r carchar, ond roedd y llysoedd teulu yn cymryd diddordeb dim ond ynddo fe'n gweld y plant. Dwi ddim yn siŵr os oedden nhw hyd yn oed yn gwybod am y stwff carchar. (Goroeswr)

Dyw gwasanaethau llysoedd ddim yn defnyddio'r holl wasanaethau sydd ar gael ac sydd angen ar oroeswyr. (Goroeswr)

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn disgwyl am ganlyniad adolygiad y panel o achosion cyfraith breifat cyn gwneud ymrwymiad o ran mesurau arbennig yn y llysoedd teulu.

Croesawn y gwaharddiad ar ganiatáu i ddrwgeithredwyr groesholi yn y llysoedd teulu, ond mae'n rhaid i hyn fynd ymhellach. Croesawn welliant i wahardd croesholi uniongyrchol mewn unrhyw achos teuluol, troseddol neu sifil mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, cam-drin rhywiol, stelcian neu aflonyddu a galwn am ymestyn hyn er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i bob achos ac nad yn ôl disgrisiwn y llys y caniateir i ddrwgweithredwr honedig gael ei groesholi. Adleisiwn bryderon y Cyd-bwyllgor ynghylch anghysondeb diogelwch, pe bai'n aros yn ôl disgrisiwn y llysoedd, a chefnogwn yr alwad am waharddiad gofodol.

Cefnogwn hefyd ddiwygiadau arfaethedig canlynol Women's Aid Federation Lloegr;

- Sicrhau mynediad i fesurau arbennig ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig yn y llysoedd teulu.
- Gwahardd cyswllt heb oruchwyliaeth i riant sydd ar fechniaeth am droseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig, neu lle bo trafodion troseddol parhaus yn ymwneud â cham-drin domestig.

- Newid yn y gyfraith i sicrhau, mewn achosion o gam-drin domestig, y caiff penderfyniadau ynghylch trefniadau cyswllt â phlentyn eu gwneud ar sail barn wybodus am yr hyn sydd o les i'r plentyn/plant ac nid ar sail y rhagdybiaeth y bydd rhieni'n rhan ohono.

Drwgweithredwyr

Cefnogwn y galwadau gan [Respect and Right of Women](#) mewn perthynas â'r Gorchymynion Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig a gynigir yn y Bil.

Yn ein hargymhellion galwyd hefyd am;

- Rhaglen o hyfforddiant ar weithredu a gorfodi gorchymynion amddiffyn, adnoddau i brosesu ceisiadau, cynrychiolaeth effeithiol i oroeswyr a gwerthusiad cadarn o fonitro electronig. Mae'n rhaid i achredu rhaglenni drwgweithredwyr hefyd fod yn ofynnol cyn cysylltu'r ymyriadau hyn â Gorchymyn Amddiffyn, ac mae'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau i orchymyn sicrhau bod sêl bendith a chefnogaeth y goroeswr yn ganolog iddynt a dal y drwgweithredwr i gyfrif am ei weithredoedd.
- Dull gweithredu system gyfan ar gyfer drwgweithredwyr cam-drin domestig sy'n gosod diogelwch, lles ac anghenion goroeswyr a phlant yn ganolog iddo. Mae hyn yn gofyn am ystod o ymatebion ar draws y system cyfiawnder troseddol ynghyd â rhaglenni newid ymddygiad sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol ac sydd â sicrwydd ansawdd.

Tagu fel trosedd benodol

Cefnogwn [alwad](#) ein llysgennad Rachel Williams i wneud tagu yn drosedd benodol. Byddai hyn yn golygu bod angen rhoi pwerau penodol i'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol i ddelio ag adroddiadau o dagu fel trosedd benodol gyda'r difrifoldeb haeddiannol.

Fel y dywedodd Rachel Williams "Mae tagu yn weithred symbolaidd o reolaeth sy'n gadael dioddefwr yn gwbl sicr yn ei chalon bod yna fygythiad real i'w bywyd. Os byddwch yn gosod eich dwylo ar wddf rhywun a'i wasgu, mae'r neges a'r arswyd i'r dioddefwr yn glir."

Mae tagu yn fygythiad uniongyrchol i fywyd ac mae angen ei drin felly; yn aml, nid yw ymosodiadau tagu yn arwain at gyhuddiad nac yn cael eu trin fel ymosodiadau difrifol sy'n bygwth bywyd. Mae [Llywodraeth Seland Newydd](#) yn gwneud tagu nad yw'n angheuol yn drosedd newydd sy'n derbyn cosb o hyd at saith mlynedd yn y carchar.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn cynnwys tagu fel trosedd newydd yn y Bil Cam-drin Domestig gan gydanbod ei fod yn ymosodiad difrifol, yn arf rheoli ac yn fygythiad i fywyd.

Menywod anabl

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi'r alwad gan [Stay Safe East](#) i gau'r bwlch yn y Ddeddf Troseddau Difrifol sy'n galluogi drwgweithredwyr cam-drin i'w hamddiffyn eu hunain am ddefnyddio rheolaeth gymhellol os ydynt 'o'r farn ei bod er lles y person'.

Amlygodd ein hadroddiad am [Cefnogi Pobl Anabl sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru](#) a gyhoeddwyd eleni, ganfyddiadau sy'n peri gofid nad yw'r heddlu yn trin cwynion o ddifrif a bod goroeswyr ag anableddau yn cael eu cwestiynu neu'n cael eu hystyried fel pobl sydd â diffyg hygredd wrth geisio cymorth ar gyfer cam-drin domestig gan gyrff statudol. Dangosodd goroeswyr i ni sut y gallai drwgweithredwr fanipiweiddio asiantaethau er mwyn iddynt ei weld fel un sy'n helpu'r goroeswr yn hytrach na bod yr asiantaethau yn adnabod yn effeithiol ymddygiad rheolaethol y drwgweithredwr.

Dyweddodd goroeswyr yng Nghymru wrthym:

Byddai fy nghyn-bartner a oedd yn fy ngham-drin hefyd yn aml yn domiwnyddu sgysiau, gan ymddwyn fel petai'n fy 'helpu' i. Roedd hyn yn golygu ei fod yn camgyfleu pethau a gafodd eu dweud ac yn fy atal rhag cymryd rhan mewn sgysiau neu'n siarad drosta i. (Goroeswr)

Dengys hyn yn glir bod angen i oroeswyr ag anableddau gael amddiffyniad cyfartal o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheolaeth gymhellol fel bod asiantaethau statudol yn sicrhau bod gwranddo arnynt yn hollbwysig er mwyn adnabod cam-drin domestig.

Menywod yn y system cyfiawnder troseddol

Er mwyn cryfhau amddiffyniad cyfreithiol i oroeswyr cam-drin domestig a ysgogir, gan y profiad hwnnw, i gyflawni trosedd, mae Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi galwad yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (a gefnogir gan arbenigwyr cam-drin domestig cyfreithiol) i gryfhau'r amddiffyniad cyfreithiol i oroeswyr cam-drin domestig sydd wedi'u hysgogi gan y profiad hwnnw i gyflawni trosedd. Yn benodol, byddai hyn yn cyflwyno diwygiad i'r gyfraith ar hunanamddiffyniad (wedi'i fodelu ar y darpariaethau i gartrefi yn Adran 76 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008) ac amddiffyniad statudol newydd (wedi'i fodelu ar Adran 45 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015), ynghyd â chanllawiau statudol, hyfforddiant a chyfarwyddiadau a chanllawiau barnwrol.

Gofyn a Gweithredu

Mae'r [Fframwaith 'Gofyn a Gweithredu'](#) yng Nghymru, a oedd yn rhan allweddol o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn arwain at newidiadau cadarnhaol sylweddol ac at well ymwybyddiaeth gyffredinol gan gyrff cyhoeddus o'r mathau hyn o gam-drin. Gosododd y Ddeddf ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus datganoledig i hyfforddi pob aelod o staff o dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, ei atal, ac i amddiffyn a chefnogi goroeswyr.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi derbyn cytundeb i ddarparu hyfforddiant i hyfforddi hyfforddwr 'Gofyn a Gweithredu'. Darperir hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' mewn partneriaeth â hyfforddwyr arbenigol yn y sector trais yn erbyn menywod, gan gynyddu'r berthynas o dydd i ddydd rhwng

gweithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus a gwasanaethau arbenigol lleol, sy'n cryfhau mecanweithiau llwybrau atgyfeirio. Mae gweithwyr proffesiynol a hyfforddwyd wedi nodi sut y mae'r hyfforddiant wedi gwella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt, er enghraifft, drwy enwi ymddygiad cydnabyddedig fel gorfodaeth a rheolaeth, mae ymarferwyr iechyd meddwl wedi medru grymuso goroeswyr drwy roi iddynt y geiriau i ddisgrifio'u profiadau. Mae ymarferwyr hefyd wedi medru adnabod ymddygiad cymhellol neu reolaethol tramgwyddol cynnar neu sefydledig ymhlith cleifion ac wedi gallu cymryd camau ataliol.

Mae'r hyn a ddysgwyd o gyflwyno 'Gofyn a Gweithredu' wedi amlygu'r angen i ddarpau adnoddau i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant, gan gynnwys galluogi staff y sector cyhoeddus i feddu ar y gallu i gwblhau'r cyrsiau hyfforddi ac i sicrhau bod gan wasanaethau arbenigol adnoddau digonol i ateb y galw cynyddol am gymorth.

I oroeswyr yng Nghymru, mae angen i'r gwaith o wella ymatebion asiantaethau staudol sicrhau bod yna ddull cyson a chydgyssylltiedig ar draws asiantaethau datganoledig a'r rheini sydd heb eu datganoli a bod eu hymtebion yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn sicrhau llwybrau atgyfeirio effeithiol rhwng gwasanaethau.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi'r alwad i Lywodraeth y DU ddiwygio'r Bil Cam-drin Domestig er mwyn ymestyn y gwaith hwn ymhellach i sicrhau bod goroeswyr yn fwy diogel, ynghyd â chyllid diogel a chynliadwy er mwyn i'r sector arbenigol gefnogi hyn ac ateb y galw cynyddol. Rydym wedi llywio a chefnogi Agenda, fel bod [Gofyn a Gweithredu](#) yn galw ar y Bil Cam-drin Domestig i osod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau bod staff rheng flaen yn gwneud ymholiadau hyfforddedig i gam-drin domestig ac yn medru darparu llwybrau at gymorth i oroeswyr a'r rheini'n rhai sy'n cynnwys ystyriaeth o'r trawma a ddioddefwyd ganddynt. Byddai hyn yn adeiladu ar raglen Gofyn a Gweithredu yng Nghymru.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch y briff hwn at:

Gwendolyn Sterk

Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu

02920 541 551

GwendolynSterk@welshwomensaid.org.uk